

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 4ydd 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Maldwyn Jones, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Meilir Jones, Eifion Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards. Cytunwyd i gymeradwyo absenoldeb awdurdodedig i Gwenda Morris am 6 mis oherwydd salwch.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb gan i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

i) Cais am ganllaw newydd ar un o lwybrau troed ar stad Tan y Foel, Llanfor - nid oedd y clerc wedi derbyn unrhyw ymateb gan Adra felly gofynnwyd iddi ail gysylltu â hwy.

ii) Derbyniwyd eglurhad gan Adran Ailgylchu Cyngor Gwynedd fod y tywydd gwyntog yn ddiweddar wedi chwalu'r mwyafrif o'r sbwriel a welwyd ar ochrau'r ffyrdd ond y byddai'n atgoffa'r criwiau casglu o eu dyletswyddau i sicrhau nad oedd sbwriel yn cael ei golli o'r cerbydau. Roeddynt wedi gofyn i'r tîm glanhau strydoedd ymweld â'r ardal i geisio clirio unrhyw lanast.

iii) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi ymweld â Llanfor i weld lle'r oedd y dŵr yn sefyll ar y ffordd ger Penisa'r Llan ac am ail ymweld pan fyddai glaw er mwyn ceisio datrys y broblem.

iv) Roedd trefniadau mewn llaw i glirio ac adnewyddu'r culfets ar y A4212.

v) Roedd y difrod i wal pont Llandderfel ar y B4401 wedi cael ei anfon ymlaen i sylw Ymghynghoriaeth Gwynedd.

vi) Cafwyd cadarnhad fod ffordd gefn heibio Rhiwlas wedi cael ei chlustnodi i gael ei arwynebu ac arwisgo.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Chopi o'r rhaglen waith Cynnal Tiroedd 2021.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Llythyr yn ein cyngori am yr 'Ymgyngoriad Cyhoeddus: Canllaw cynllunio Atodol Drafft, Telathrebu a Mastiau'.

c) Cyfoeth Naturiol Cymru.

i) Copi o'r 'Cod Cefn Gwlad' ddiwygiedig.

ch) Llywodraeth Cymru.

i) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cyngorau Cymuned a Thref.

Cafwyd crynodeb gan y clerc o'r prif ddarpariaethau a oedd yn berthnasol i'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd i'r clerc fynychu'r gynhadledd a drefnwyd i drafod y gofynion ac i dalu am yr oriau ychwanegol a oedd ynghlwm a'r gwaith yma.

d) Amrywiol.

i) Goryrru ar y B4391 dros y Berwyn – derbyniwyd llythyr i sylw'r Cyngor Cymuned a Chyngor Cymuned Llangywer ynglyn a'r ceir a oedd yn goryrru ar y B4391. Roedd y mater wedi cael anfon ymlaen i sylw'r heddlu a oedd wedi cytuno i

ii) Cwyn am gyflwr llwybr troed Llanfor i Bala - derbyniwyd llythyr gan un o'r trigolion lleol ynglŷn â'r baw oedd yn cael ei adael ar ôl ar y llwybr wedi i wartheg godro Stad y Rhiwlas groesi ar ei draws. Roedd y clerc wedi pasio'r gwyn ymlaen yn syth.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a cytunwyd i'w cefnogi:-

C21/0353/04/LL – Codi porth ar flaen yr adeilad a lolfa haul ar y cefn. Tyn y Ddol, Llandderfel.

C21/0297/04/DT – Newid defnydd rhan o gae amaethyddol i ffurfio rhan o gwrtil a gosod modurdy. Tyddyn Dyfi. Glanrafon.

vi) Materion Ariannol.

a) Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £4,500

b) Taliadau

i) Cadarnhaodd y clerc swm tal aelodaeth Un Llais Cymru ar gyfer 2021/22 (cymeradwywyd i'w dalu ym mis Mawrth).

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Came & Company (Yswiriant)

Ad-daliad i'r clerc, cost cynhadledd Un Llais Cymru

c) Ceisiadau Ariannol.

Derbyniwyd ceisiadau gan Eisteddfod Gadeiriol Llandderfel a Hosbis Tŷ Gobaith. Cytunwyd i gyfrannu £100 i Tŷ Gobaith ac ail drafod cais Eisteddfod Llandderfel ym mis Mawrth fel yr arfer.

vii) Materion lleol.

a) Mynwent Frongoch.

Yn dilyn tywydd garw'r gaeaf bu rhaid i'r clerc drefnu ym mis Ebrill i dorri rhai o'r coed yn y fynwent er mwyn diogelu'r tai cyfagos. Gan fod hyn yn waith oedd angen ei wneud ar frys roedd y Clerc wedi trafod y mater gyda'r Cadeirydd a'r cynghorwyr lleol ac wedi derbyn pris Cwmni Ciltalgarth i wneud y gwaith yn syth. Yn dilyn claddedigaeth yn ddiweddarach roedd y cynghorwyr lleol a'r clerc wedi gwneud rhestr o'r gwaith a oedd angen ei wneud i dacluso'r fynwent. Derbyniwyd prisiau ar gyfer ail beintio'r giât, gosod gwifren newydd ar hyd y wal ger y fynedfa a hefyd y gwaith o glirio'r mieri a gwreiddiau'r coed. Gan fod y ddau bris o dan £500 nid oedd angen i'r Cyngor gael prisiau ychwanegol. Cytunwyd i ofyn i Deiniol Davies gwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib. Cytunwyd hefyd i archebu bin ysbwriel i'r fynwent a thalu'r swm priodol i'w wagu pan oedd angen.

b) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwyn canlynol ymlaen i'r adran berthnasol:-

i) Canghennau'r coed yn dod drosodd i'r ffordd ger Dewis Cyfarfod, Llandderfel.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 1af am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.